

FSAW 19/07/02

I'w drafod

Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru ar Faterion a Godwyd yng Nghyfarfod Agored Diwethaf y Bwrdd

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r adroddiad atodedig yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd gan Gadeirydd y Bwrdd yng nghyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Mai a mis Mehefin 2019, yn ogystal â materion trafod allweddol yn ymwneud â chylch gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru. Mae cofnodion llawn y cyfarfod hwnnw ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy <http://www.food.gov.uk> (Saesneg yn unig)
2. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i:
 - **nodi** trafodaethau'r Bwrdd
 - **gwahodd** y Cadeirydd i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach.

Cysylltwch â: Lucy Edwards

[lucy.edwards@ food.gov.uk](mailto:lucy.edwards@food.gov.uk)

FSAW 19/07/02

I'w drafod

Adroddiad Cadeirydd Cyngori ar Fwyd Cymru (WFAC) – Gorffennaf 2019

1. Cyfarfodydd y Bwrdd

1.1 Bu dau gyfarfod Bwrdd ers cyfarfod agored diwethaf WFAC. Fe wnaeth y Bwrdd gyfarfod ar 8 Mai a 19 Mehefin.

1.2 Roedd cyfarfod y Bwrdd ar 8 Mai yn gyfarfod arbennig a drefnwyd i ganolbwyntio ar un mater, sef Gorsensitifrwydd Bwyd ac Adolygiad Labelu Alergenau'r Llywodraeth. Mae cofnodion cyfarfod Bwrdd mis Mai, sy'n rhoi rhagor o gyd-destun a chasgliadau'r Bwrdd ar y papur, isod (*Saesneg yn unig*) https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa-19-06-02-minutes-may-2019-board-meeting_0.pdf

1.3 Yn y cyfarfod ar 19 Mehefin, aeth y Bwrdd ati i ystyried y materion canlynol:

- **Diweddariad ar waith yr ASB ar Orsensitifrwydd Bwyd ac Adolygiad Labelu Alergenau'r Llywodraeth:** Roedd y papur yn rhoi diweddariad ar y cynnydd yn dilyn cyfarfod arbennig y Bwrdd ar 8 Mai ac yn nodi cynllun gwaith amlinellol a dull arfaethedig o frw ymlaen â gwaith yr ASB ar orsensitifrwydd bwyd a labelu alergenau.
- **Rheoleiddio Ein Dyfodol – Darparu Model Wedi'i Foderneiddio ar gyfer Rheolaethau Swyddogol Safonau Bwyd:** Roedd y papur yn rhoi'r diweddaraf ar gynlluniau'r ASB i ddatblygu a gweithredu model cyflwyno safonau bwyd wedi'i foderneiddio.
- **Adroddiad Terfynol gan Weithgor y Cyngor Gwyddoniaeth ar Risgiau'r System Fwyd, Sganio Gorwelion ac Ymateb yr ASB:** Roedd yr adroddiad yn un terfynol gan y Gweithgor ar Risgiau'r System Fwyd a sganio gorwelion a oedd yn dadansoddi argymhellion y gweithgor ac ymatebion arfaethedig yr ASB i'r rhain.
- **Cyflwyno Rheolaethau Swyddogol ar gyfer Bwyd Anifeiliaid:** Roedd y papur yn disgrifio'r trefniadau presennol ar gyfer cyflwyno rheolaethau bwyd anifeiliaid swyddogol ac yn nodi camau ar gyfer trefniadau posibl yn y dyfodol.
- **Strategaeth Samplu'r ASB – Ein Dull Ar Gyfer Samplu yn y Dyfodol:** Roedd y papur yn disgrifio'r trefniadau presennol ar gyfer samplu ac yn nodi cyfres o egwyddorion arweiniol a fydd yn sail i ddylunio a chyflwyno ymarferion samplu yn y dyfodol.
- **Dull yr ASB at Orfodi Rheoleiddiol a Chosbau:** Roedd y papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol o ran gorfodi reoleiddiol a chosbau ac yn nodi dull arfaethedig y dyfodol.

2.2 Bydd cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Mehefin 2019, a fydd yn darparu rhagor o gyd-destun yn ogystal â chasgliadau'r Bwrdd ar y papurau uchod, yn cael eu huwchlwytho i wefan yr ASB yn fuan drwy: <https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-june-2019>

2.3 Cynhaliodd WFAC gyfarfodydd busnes ar 7 Mai a 13 Mehefin i gytuno ar ei gyfraniad i drafodaethau'r Bwrdd a amlinellwyd uchod.

3. Materion eraill

3.1 Ers y cyfarfod agored diwethaf, rwyf wedi bod yn rhan o drafodaethau gyda Chadeirydd Bwrdd yr ASB a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Gogledd Iwerddon mewn perthynas â ffyrdd newydd y Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd o weithio. Mae'r ddau Bwyllgor Cynghori ar Fwyd bellach wedi cynnal dwy sesiwn agored â thema, un ar alergenau ac un ar fwyd anifeiliaid. Cofnodwyd trafodaethau a gynhaliwyd yn y ddau gyfarfod â thema mewn papurau a drafodwyd yn ddiweddar gan y Bwrdd. Bu cynnydd nodedig hefyd yng nghyfraniad rhanddeiliaid yn y cyfarfodydd â themâu. Fel Chadeiryddion, rydym ni wedi cytuno bod ail-strwythuro'r Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd wedi bod yn fuddiol ac mae'r drefn newydd yn darparu gwell mewnbwn yn benodol i'r wlad honno i gamau cynnar datblygu polisi. Bydd y ffyrdd newydd o weithredu yn parhau i gael eu hadolygu a'u gwerthuso.